

ECAD6011C

Mae creadigrwydd yn ein system addysg yn hanfodol o bwysig i sicrhau bod plant o fewn addysg yng Nghymru yn derbyn addysg sydd yn cyfoethogi doethineb y dysgwyr trwy daith o ddarganfyddiad personol. Rwyf am wybod, sut y gallwn ni fel addysgwyr gefnogi'r plentyn 3 mlwydd oed sy'n chwerthin ac yn hapus wrth fynd i mewn i'r feithrinfa llawn chwilfrydedd a chwestiynau, i lywio'n llwyddiannus eu taith ddysgu fel eu bod yn dod i ben yn 16, neu'n 18 oed, neu'n hwyrach, yn dal yn chwerthin ac yn chwilfrydig, ond gyda'u doethineb wedi'u cyfoethogi gan daith o ddarganfyddiad personol (Thorne, 2007, t. 3).

Pe baech yn edrych yn y geiriadur, fe welwch chi fod y gair 'creadigrwydd' wedi'i diffinio fel y ganlyn "the ability to produce original and unusual ideas or to make something new or imaginative" (Wasg Prifysgol Caergrawnt, 2008). Dywed Thorne (2007, t. 17) bod creadigrwydd yn golygu rhywbeth gwbl wahanol i beth mae'r geiriadur yn eu diffinio, trwy ddweud, "Creativity to me means mess, freedom, jumbled thoughts, words and deeds each fighting to claim their own space in my mind".

Dechreuwyd y diddordeb mewn i greadigrwydd o fewn addysg tua diwedd y 90au. Ers hynny, mae pwysigrwydd creadigrwydd o fewn system addysg y Deyrnas Unedig wedi cynyddu, cymaint felly bod creadigrwydd wedi symud o ymylon addysg i gael ei ystyried fel agwedd graidd o addysg (Craft, 2005, t. 10). Mae'r ffaith bod creadigrwydd wedi symud cymaint i gael ei ystyried fel agwedd graidd o addysg yn y Deyrnas Unedig a Chymru yn elfen hanfodol yw ystyried, fodd bynnag, mae addysg tro ar ôl tro yn cael eu beirniadu am droi allan 'cyd-ffurfwyr' a 'stereoteipiau' yn hytrach nag 'meddylwyr creadigol' (Rogers, 1970, t. 137-151). Mae rhaid i ni fel addysgwyr edrych ar feithrin elfen o greadigrwydd ym mhob agwedd o'n haddysgu, cefnogir hyn gan Donaldson (2015, t. 20) trwy ddweud "mae newid arwyddocaol oddi wrth 'ddysgu am bethau' at 'ddysgu i wneud pethau', gyda mwy o sylw i sgiliau a phwyslais ar gymhwyso a meithrin uwch sgiliau, yn enwedig creadigrwydd". Mae'r ffaith bod Donaldson yn cefnogi'r defnydd o greadigrwydd ac yn ddweud bod addysgu yn symud o 'ddysgu am bethau' at 'ddysgu i wneud pethau' yn sylfaenol i'r ddadl gan gefnogi'r defnydd o greadigrwydd yn y dosbarth. Mae Donaldson (2015, t. 31) hefyd yn cefnogi dysgu mewn ffordd greadigol trwy gyflwyno'r 'Pedwar Diben' sydd yn gofyn am 'Cyfranwyr mentrus, creadigol'.

Yn ogystal ag addysg greadigol, mae gan addysgu menter rhan hanfodol yw chwarae er mwyn feithrin elfen greadigol o fewn addysg y plentyn. Mae menter yn cyfeirio at y broses o roi gwell gallu i ddysgwyr gynhyrchu syniadau a'r sgiliau i'w gwneud syniadau digwydd.

Yn amlwg mae manteision a heriau i ymgorffori elfen greadigol o fewn addysg. Mae'r ffaith bod Donaldson yn datgan o fewn y cwricwlwm newydd sydd i ddod yng Nghymru bod addysg wedi newid i 'ddysgu i wneud pethau' yn elfen bwysig i gefnogi dysgu'n greadigol. Felly mae dysgu'n greadigol a datblygu sgiliau menter yn elfennau allweddol i addysg plentyn yng Nghymru.

Wrth ddadansoddi hwn, mae'n allweddol bod dysgu creadigol yn cael eu hymgorffori ym mhob agwedd o'n cwricwlwm. Trwy wneud hyn, bydd yn gwella dysgu mewn llawer o wahanol ardaloedd dysgu o fewn addysg. Mae creadigrwydd yn rhoi llawer o gyfleoedd i blant, gan gynnwys, rhyddid i fynegi eu hun, datblygiad emosiynol, gwella sgiliau meddyliol, lleihau straen a phryder, hybu sgiliau datrys problemau a gwella sgiliau cyfathrebu (edsys, 2017). Felly'n wir dangos bod gan creadigrwydd o fewn addysg rôl allweddol i'w chwarae. Rhagfynega Robinson (2006) "my contention is creativity now is as important in education as literacy, and we should treat it with the same status". Mae hyn felly'n cefnogi pwysigrwydd defnyddio creadigrwydd mewn addysg; mae'r ffaith bod pobl yn meddwl dylai creadigrwydd derbyn yr un statws â llythrennedd yn ffactor pwysig wrth astudio modd i weithredu elfen greadigol o fewn y cwricwlwm newydd.

Dywed Llywodraeth Cymru (2015, t. 48) "Dylai plant ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd yn barhaus ar draws y cwricwlwm". Cefnogi'r datganiad defnydd o greadigrwydd, wrth ddatgan yn syml dylai plant cael y cyfle yn barhaus ar draws y cwricwlwm i ddatblygu eu dychymyg a'u creadigrwydd.

Rydym wedi goresgyn cyfnod pan ymddengys ein bod yn tanseilio ffyrdd creadigol a dychmygus o feddwl yn ein system addysg. Mae'n dda bod newid wedi bod yn ddiweddar ond mae'n rhaid i ni bob amser fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o ddychwelyd at ffyrdd blaenorol o feddwl, a bod yn glir ynghylch eu peryglon (Duffy, 2006, t. 7). Dadleuir Bruner (1986) ein bod wedi rhoi gwerth mawr ar feddwl rhesymegol a systematig, ac nad yw meddwl rhyfeddol wedi derbyn y sylw y mae'n ei haeddu. Awgryma Duffy (2006, t. 9) "By encouraging creativity and imagination we are promoting children's ability to explore and comprehend their world and increasing their opportunities to make new connections and reach new understandings". Mae'r datganiad yma'n dangos beth mae dysgu'n ffordd greadigol yn medru rhoi i blentyn. Mae'r ffaith bod Duffy'n datgan fod creadigrwydd yn medru rhoi'r gallu iddynt i wneud cysylltiadau newydd a hefyd cyrraedd dealltwriaeth

newydd, mae'n glir ei bod yn cefnogi'r defnydd o greadigrwydd o fewn amgylchedd addysgol.

Yn ôl Fforwm Economaidd y Byd, erbyn 2020 bydd creadigrwydd yn un o'r tair sgîl bwysicaf ar gyfer swyddi yn y dyfodol, ochr yn ochr â datrys problemau cymhleth a meddwl beirniadol (Norris, 2018). Mae hon yn elfen bwysig arall i'w hystyried wrth drafod os dylai ysgolion dysgu ac annog creadigrwydd. Mae'r ffaith y bydd creadigrwydd yn cael ei ystyried yn un o dri sgîl pwysicaf i dderbyn swydd yn y dyfodol, mae'n holi'r cwestiwn, pam nad yw ysgolion yn canolbwyntio ar hyn yn fwy?

O'r dystiolaeth a'r enghreifftiau uchod, mae'n amlwg bod creadigrwydd yn yr agwedd addysgol yn elfen sydd wedi'i gefnogi'n gryf. Hefyd, mae'n amlwg bod creadigrwydd yn rhoi cymaint i'r plentyn o ran addysg gyfoethog, felly'n hollbwysig ein bod ni fel addysgwyr yn gweithio i'w ddefnyddio'n amlach yn yr ystafell ddosbarth.

Er mwyn i mi werthuso fy sgiliau creadigol a menter fy hun, ac yn y pendraw sut y medraf drosglwyddo'r sgiliau yma i ddatblygu sgiliau creadigol a mentrus dysgwyr cynradd, mae'n hanfodol edrych ar y fframwaith 'Entrecomp'.

Pe baem yn edrych ar y fframwaith 'Entrecomp' yn fanwl, fe fydd plentyn neu oedolyn a lefel sylfaenol o greadigrwydd yn medru dangos y canlynol: "can develop multiple ideas that create value for others". Yn fwy, bydd plentyn neu oedolyn sy'n arddangos lefel uwch o greadigrwydd yn medru dangos y canlynol: "Learners can transform ideas into solutions that create value for others" (Bacigalupo et al. 2016, t. 18). Mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y fframwaith 'Entrecomp' gan eu bod yn medru galluogi unrhyw un i asesu lefel o greadigrwydd y maent yn eu dangos. Mae'r fframwaith 'Entrecomp' yn ddefnyddiol iawn, mae'n cyffwrdd â sawl agwedd o'n bywydau bob dydd, a gellir defnyddio'r fframwaith fel canllaw cyfeirio amlbwrpas. Er hynny, mae rhaid sicrhau wrth ddefnyddio'r fframwaith ein bod yn addasu i anghenion y grŵp o bobl maent yn bwriadu ei dargedu.

Wrth edrych ar y fframwaith 'Entrecomp', neu yn fwy penodol, y model cysyniadol 'Entrecomp' (gwelir atodiad 1), daw i'r amlwg, heb rai elfennau o'r model, mae'n amhosibl cyflawni datblygiad entrepreneuriaeth llawn.

Wrth edrych ar y model, mae'n medru rhoi ateb ar gyfer creadigrwydd a menter eich hun. Mae'r model wedi arwahanu mewn i dri gwahanol elfen: gweithredu, adnoddau a syniadau a chyfleoedd. Mae'r model yn galluogi gosod amcanion dysgu yn gysylltiedig â beth sydd angen ei wella. Felly, er mwyn gwerthuso fy sgiliau creadigol a menter fy hun er mwyn

ystyried sut i ddatblygu sgiliau creadigol a menter dysgwyr cynradd, mae'n rhaid mabwysiadu'r fframwaith 'Entrecomp' a'i ddefnyddio fel canllaw.

Ymhellach, mae'n rhaid edrych ar sut mae'r fframwaith 'Entrecomp' yn ddefnyddiol i addysgwyr a sut mae'n cysylltu i greadigrwydd. Mae'r fframwaith 'Entrecomp' yn offeryn hynod o ddefnyddiol ar gyfer athrawon ac addysgwyr i asesu eu creadigrwydd a'u menter eu hunain, yn ogystal â chreadigrwydd a menter y plentyn. Yn ei hanfod, mae'n rhoi'r gallu i osod 'lefel' ar gyfer yr elfen o greadigrwydd y mae'r plentyn yn ei ddangos neu chi eich hun yn dangos.

Ond cyn symud ymlaen, mae'n rhaid ein bod yn cyrraedd dealltwriaeth o ran pam mae menter wedi cael ei gyflwyno gan lawer o bobl fel rhywbeth dymunol a werth parhau i'w ddilyn.

Felly, pam mae'n cael ei hystyried fel testun â diddordeb sylweddol mewn cylchoedd llywodraeth, academiaidd, busnes a chylchoedd eraill (Bridge et al. 1998, t. 1). Yn ogystal, mae rhaid deall beth yw menter a sut mae menter yn berthnasol i fywyd pob dydd yn yr ysgol, ond hefyd sut mae'n cysylltu i greadigrwydd yn yr ystafell dosbarth. Mae Jarman (2018) yn ei ddiffinio'n gorau trwy ddatgan "Enterprise: the application of creative ideas and innovations to practical situations".

Mae llawer o blant yn dod ag agweddau mentrus gyda nhw pan fyddant yn dechrau yn yr ysgol gynradd. Mae'r ysgolion gorau yn cynnal optimistiaeth a hyder fel bod y plant yn gweld y cyswllt rhwng dysgu a'u bywydau yn y dyfodol (Young, 2014, t. 16). O hyn, mae'n bosib creu cysylltiad bod menter, fel creadigrwydd, yn elfen bwysig o sicrhau addysg gyfoethog. Felly, daw i'r canlyniad bod creadigrwydd a menter yn dod ochr-yn-ochr, lle mae'r perthynas yn cael ei gyfoethogi gan greadigrwydd personol yr athro.

Mae creadigrwydd a menter fy hun yn hynod o bwysig er mwyn sicrhau fel yr athro bod disgyblion y dosbarth yn medru datblygu eu sgiliau creadigrwydd a menter. Gwelir y datganiad canlynol sydd yn cefnogi hyn; "Young people's creative abilities are most likely to be developed in an atmosphere in which the teacher's creative abilities are properly engaged" (NACCCE, 1999, t. 103). Mae'r datganiad nid yn unig yn nodi bod creadigrwydd athro yn agwedd hanfodol, mae hefyd yn awgrymu bod awyrgylch lle mae creadigrwydd athro ar ei frig yn angenrheidiol, dim ond wedyn mae'n bosib i blentyn ddatblygu. Cefnogir hyn gan y datganiad canlynol:

The role of the teacher is crucial in providing a safe environment where a child feels as though they are able to express their creativity, explore it, and understand its significance too. (Tutor House, 2015)

Mae'r uchod yn profi bod rôl yr athro a'u creadigrwydd yn hanfodol; heb i'r athro eu cysylltu'n llawn â'u creadigrwydd eu hunain, ni fydd datblygiad llawn y plant o fewn yr ystafell ddosbarth yn bosibl.

Yn gyntaf, mae'n bwysig deall sut i ddysgu neu sut i annog creadigrwydd a menter mewn plant ysgol gynradd. Mewn cysylltiad â chreadigrwydd mae'n bwysig ystyried y tri dull o addysgu. Pedagogaeth, Andragogaeth a Heutagogaeth. Yn gyntaf, mae Pedagogaeth yn cysylltu i'r ddysgu o blant, mae'r plant trwy'r broses o Bedagogaeth gyda phersonoliaeth ddibynnol. Mae'r athro / athrawes yn penderfynu beth, sut a phryd. Yn ail, mae Andragogaeth yn cysylltu i ddysgu oedolion, mae oedolion yn annibynnol drwy'r broses gyfan. Mae oedolion yn ymdrechu i gael ymreolaeth a hunangyfeiried wrth ddysgu. Ac yn olaf, mae Heutagogaeth, lle mae dysgwyr yn rhyngddibynnol. Maent yn nodi'r potensial i ddysgu o brofiadau newydd fel mater o gwrs a gallant reoli eu dysgu eu hunain.

Yn yr agwedd hon, a drwy edrych ar pedagogeth yn benodol mae'n glir ei fod yn cysylltu â chreadigrwydd mewn sawl ffordd. Y mwyaf amlwg a rheolaidd yw heb fod yr athro wedi datblygu eu creadigrwydd eu hunain, ni ellir y disgyblion o fewn y dosbarth eu datblygu. Ond, gellir dweud yr un peth am pedagogaeth athrawon, hebddo, ni all y disgyblion yn yr ystafell ddosbarth ddatblygu. Mae'r datganiad canlynol yn cefnogi hyn gan awgrymu bod pedagogaeth athrawon yn aml yn dod o brofiad addysg eu hunain: "Pedagogy is often shaped by a teacher's own experience of learning. For many this was simply knowledge being transmitted by their teacher." (Livingston et al. 2017, t. 8).

Mae'r uchod yn ddiddorol wrth ystyried creadigrwydd a menter athrawon, nid yw creadigrwydd mewn oedolion byth mor gryf o'i gymharu â'u plentyndod. Fodd bynnag, disgwylir i oedolion lunio creadigrwydd plant, a heb hynny, ni all plant ddatblygu eu creadigrwydd yn llawn. Nodir Land a Jarman (1993) bod 98% o blant oedran 5 yn dangos creadigrwydd, 30% o blant 10 mlwydd oed, 12% o blant 15 mlwydd oed. Ac yna, mae oedolion yn dangos 2% o greadigrwydd. Yna, wrth astudio'r ystadegau, mae'r patrwm cyfrannedd gwrthdro egluro fy nadl ac yn pwysleisio pwysigrwydd i athro cael creadigrwydd personol.

Un ateb posib o'r ystadegau hyn yw os ydym yn edrych ar feddwl Dargyfeiriol a meddwl Cydgyfeiriol. Mae'r ddau ddull o feddwl yn medru cael effaith uniongyrchol ar allu pobl i

feddwl yn greadigol. Mae meddwl dargyfeiriol yn broses o feddwl a ddefnyddir i gynhyrchu syniadau creadigol trwy archwilio nifer o atebion posibl, lle maent yn nodweddiadol i ddigwydd mewn modd digymell, fel bod llawer o syniadau yn cael eu cynhyrchu. Beth sy'n ddiddorol yw'r ffaith bod meddwl dargyfeiriol yn hefyd cael ei galw'n meddwl creadigol. Ble mae meddwl cydgyfeiriol yn cael ei hystyried, rydym yn edrych ar y gallu i roi'r ateb cywir i gwestiynau lle nad oes angen creadigrwydd arnynt. Meddwl cydgyfeiriol yw'r math o feddwl sy'n canolbwyntio ar gynhyrchu ateb sengl sy'n cysylltu'n dda i'r broblem. Ond, defnyddir meddwl cydgyfeiriol fel offeryn i ddatrys problemau creadigol, felly mae'r ddau ddull yn medru cysylltu i greadigrwydd a'u mireinio. Er hyn, mae meddwl dargyfeiriol yn elfen unigol sy'n bwysig er mwyn ddangos creadigrwydd, a chefnogir hyn gan Palmiero et al. (2014, t. 456) wrth iddynt egluro ei bwysigrwydd "Divergent thinking is an important cognitive process associated with future creative achievement".

Er mwyn gwerthuso'n feirniadol fy nghreadigrwydd fy hun, mae'n bwysig sicrhau fy mod yn cymryd i ystyriaeth feddwl ddargyfeiriol a chydgyfeiriol. Mae'n hefyd bwysig cymryd i ystyriaeth fy mhedagogaeth fy hun i ystyried sut y gallaf ddatblygu sgiliau creadigol a mentrus dysgwyr cynradd. Wrth gwrs, mae fy nghreadigrwydd fy hun yn chwarae rôl sylweddol wrth ddatblygu creadigrwydd plant yn yr ystafell ddosbarth. Pe bai na fyddaf mewn cysylltiad â chreadigrwydd fy hun, ni fyddai'n bosibl arwain plant o fewn y dosbarth ar y llwybr i ddatblygiad creadigol. Mae'n elfen bwysig er mwyn sicrhau bod plant o fewn y dosbarth yn datblygu'n greadigol, i mi fel athro bod yn angerddol am greadigrwydd. Cefnogir hyn yma:

Teachers who can model creative ways of thinking, playfully engage with content, and express their ideas, will beget creative students. Students need to see teachers who have passions, whether it's drawing, mathematics, painting, biology, music, politics, or theater. (Davis, 2018)

Trwy addysg, rwyf bob amser wedi bod yn ddisgybl mwy creadigol nag yr wyf wedi bod yn academiaidd. Felly, pan ddaeth i greu rhywbeth newydd neu syniad newydd, nid oeddwn yn ei weld yn anodd o'i gymharu â'm cyfoedion a oedd yn fwy academiaidd. Er hynny, mae pawb yn greadigol, mae meddwl dargyfeiriol yn amlwg yn chwarae rôl bwysig wrth i berson unigol meddwl am syniadau gwahanol, ond mae'r gallu i ddefnyddio meddwl dargyfeiriol i feddwl

am syniadau ac wedyn meddwl cydgyfeiriol i benderfynu pa syniadau a ddylem ddefnyddio yn sgil arbennig.

Mae'n bwysig i mi fel athro i ddefnyddio'r creadigrwydd yr wyf wedi'i gael trwy addysg fy hun i drosglwyddo'r pedagogaeth greadigol hon i'r plant o fewn fy ystafell ddosbarth. Yn y rhan fwyaf o wersi, rwy'n ceisio mabwysiadu creadigrwydd ymhob agwedd. Wrth gwrs, trwy ddysgu celf, cerddoriaeth neu ddrama, rydych yn mabwysiadu creadigrwydd beth bynnag, ond yr hyn rwyf yn meddwl sydd yn bwysig yw ceisio mabwysiadu creadigrwydd i wersi Saesneg, mathemateg neu hyd yn oed gwyddoniaeth. Mae creadigrwydd a menter yn elfennau mor bwysig o fewn ein cwricwlwm sy'n datblygu yng Nghymru, mae bellach felly yn hanfodol i athrawon fod yn greadigol ac i annog y plant i fod yn greadigol fel adlewyrchiad uniongyrchol rhyngddynt.

Yn ystod fy amser ar brofiad addysgu proffesiynol, ym mhob gwers roeddwn yn ceisio datblygu elfen o greadigrwydd trwy'r amser. Trwy ddefnyddio pedagogaeth fy hunain yn ambell wers, roedd yn bosib datblygu elfen greadigol. Yn benodol, tra yn ddosbarth cyfnod sylfaen roeddwn yn osod wahanol dasgau i'r disgyblion, megis 'gan ddilyn cyfarwyddiadau, dewch i greu pysgodyn lwcus i ddathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd'. Felly, trwy'r dasg yma mae'r plant yn medru gweithio'n annibynnol wrth greu rhywbeth creadigol, ond maent wedi derbyn cyfarwyddiadau er mwyn iddynt gwblhau'r dasg, felly'n mabwysiadu elfen greadigol o dan arweinyddiaeth athro.

Wrth edrych eto ar y fframwaith Entrecomp, mewn cysylltiad â chreadigrwydd a menter fy hun, daw i'r amlwg fy mod yn medru dangos gwahanol elfennau o'r fframwaith. Yn gyntaf, wrth edrych ar y cymhwysedd creadigrwydd, fel athro, mae'n angenrheidiol i mi ddangos y gallu i ymchwilio ffyrdd newydd o ddefnyddio adnoddau presennol, ac felly'n profi fy mod yn barod i fod yn chwilfrydig ac yn agored. Yn ogystal, yn unigol neu fel rhan o dîm, rwyf yn medru datblygu syniadau sy'n creu gwerth i eraill. Mae hyn yn profi fy mod yn gallu datblygu syniadau - sgil sy'n hefyd anghenrheidiol i athro o fewn ystafell dosbarth (Bacigalupo et al. 2016, t. 24).

Mae'n hefyd bosib i edrych ar greadigrwydd trwy saith categori creadigol sy'n effeithio ar y ffordd mae athro yn trosglwyddo'r pwysigrwydd o greadigrwydd i blant. Mae'r rhain yn cynnwys newydd-deb, priodoldeb, cymhelliant, rhuglder, hyblygrwydd, sensitifrwydd a golwg. Gan gynllunio gwersi yn y dyfodol, dymunaf ddefnyddio'r categorïau yma er mwyn sicrhau bod creadigrwydd yn un o elfennau pwysicaf yn fy ngwersi. Felly gall rhain, ynghyd

â fy nghymhelliant a chwilfrydedd galluogi i mi ddefnyddio fy nghreadigrwydd fy hun i ysbrydoli disgyblion, gan fabwysiadu'r dull o ddysgu trwy chwarae ar gyfer plant cyfnod sylfaen ac yna cymryd ymagwedd traws-cwricwlaidd ar gyfer cyfnod allweddol dau i sicrhau bod tasgau creadigol o fewn pob testun (Turner, 2013, t. 23-40).

Er mwyn mabwysiadu elfen o greadigrwydd o fewn yr ysgol mae rhaid hefyd ystyried strategaeth asesu ar gyfer dysgu i gyd-fynd â'r ddysgu. Yr agwedd o asesu ar gyfer dysgu rwyf yn dymuno cynnwys er mwyn mabwysiadu creadigrwydd yn y dosbarth yw'r gallu i blant bod yn adfyfyriol o'i chreadigrwydd eu hun, felly'n sicrhau bod y plant yn meithrin sgiliau meddwl beirniadol. Gallant trwy hyn gosod nodau er mwyn dangos sut y byddant yn mynd ati i gwblhau'r wahanol dasgau. Os ydym am i'n disgyblion fod yn greadigol, mae'n rhaid i ni fel addysgwyr rhoi'r cyfle iddynt wneud hynny, ond hefyd sicrhau ein bod yn osod targedau terfynol. Er ein bod yn methu rhoi gradd i greadigrwydd, gallwn yn sicr ei asesu.

Mae gan athrawon rôl sylweddol o ran hyrwyddo creadigrwydd a menter yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n rhaid i athrawon mabwysiadu addysgeg sy'n caniatáu i blentyn fod yn greadigol ac mae'n amlwg o'r uchod bod hyn yn dod o greadigrwydd personol yr athro. Felly mae'n bwysig bod yr holl athrawon yn gweithredu cyfleoedd i blant datblygu eu creadigrwydd, boed hynny trwy greu rhywbeth, chwarae neu trwy'r amgylchedd dethol yn yr ystafell ddosbarth. Yn amlwg er mwyn datblygu creadigrwydd plentyn mae'n rhaid sicrhau bod athrawon yn rhoi cyfleoedd i blant dysgu'n annibynnol, ac felly cefnogir hyn yma: "The research suggested that to enhance creativity, learners should be given some control over their learning and supported to take risks with the right balance between structure and freedom" (Jindal-Snape et al. 2013, t. 24).

Felly, daw i'r amlwg o'r uchod bod creadigrwydd a menter athrawon yn hynod o bwysig er mwyn sicrhau ein bod yn medru datblygu creadigrwydd a menter disgyblion o fewn y dosbarth. Yn ogystal, mae'r fframwaith 'Entrecomp' yn hynod o ddefnyddiol er mwyn asesu creadigrwydd unigol; mae'n elfen hanfodol yw ystyried er mwyn sicrhau ein bod yn asesu'n gywir. Gan ymuno'r fframwaith yma gyda asesu ar gyfer dysgu mae'n glir ei fod yn elfen hanfodol o addysg ysgolion gynradd, ac felly mae'r gallu i asesu creadigrwydd plant yn ddefnyddiol iawn ar gyfer addysg y dyfodol.

Rhestr gyfeiriadau

Bacigalupo, M. et al. (2016). *EntreComp: The Entrepreneurship Competence Framework*. Luxembourg: Publication Office of the European Union. t. 2-18.

Bridge, J. et al. (1998). *Understanding Enterprise, Entrepreneurship and Small Business*. Basingstoke: Macmillan Press Ltd. t. 1.

Bruner, J. (1986). *Actual Minds Possible Worlds*. Massachusetts: Cambridge University Press. t. 84.

Craft, A. (2005). *Creativity in schools: Tensions and dilemmas*. Caergrawnt: Prifysgol Caergrawnt. t. 10.

Davis, L.. (2018). *Creative Teaching And Teaching Creativity: How To Foster Creativity In The Classroom*. Ar gael yn: <http://psychlearningcurve.org/creative-teaching-and-teaching-creativity-how-to-foster-creativity-in-the-classroom/>. [Darllenwyd: 24ain o Ionawr 2019.].

Donaldson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus*. Caerdydd: Hawlfraint y Goron. t. 20-31.

Duffy, B. (2006). *Supporting creativity and imagination in the early years*. 2nd ed. Maidenhead: Open University Press. t. 7.

Edsys. (2017). *Role and Importance of Creativity in Classroom*. Ar gael yn: <https://www.edsys.in/creativity-in-classroom/>. [Darllenwyd: 17eg o Ionawr 2019.].

Jarman, D. (2018). *What is enterprise education and how does it work in the UK?*. Ar gael yn: <https://entrepreneurhandbook.co.uk/enterprise-education-about-for-or-through/>. [Darllenwyd: 17eg o Ionawr 2019.].

Jindal-Snape, D. Davies, D. Collier, C a Howe, A.. (2013). The impact of creative learning environments on learners: A systematic literature review. *Improving Schools*. 16 (21), t. 23-31.

Land, G. Jarman, B. (1993). *Breaking point and Beyond*. San Fransisco: Harper Business.

Livingston, K. Schweisfurth, M. Brace, G. Nash, M. (2017). *Why Pedagogy Matters: The role of pedagogy in Education 2030*. Paris: UNESCO. t. 8.

Llywodraeth Cymru. (2015). *Fframwaith y Cyfnod Sylfaen*. Ar gael yn: <http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150803-fp-framework-cy.pdf>. [Darllenwyd: 17eg o Ionawr 2019.].

National Advisory Committee on Creative and Cultural Education (1999). *All Our Futures: Creativity, Culture and Education*. Llundain: NACCCE. t. 103.

Norris, R.. (2018). *Creativity can be taught to anyone. So why are we leaving it to private schools?*. Ar gael yn: <https://www.theguardian.com/commentisfree/2018/jan/17/creativity-private-schools-uk-creative-industries-state>. [Darllenwyd: 17eg o Ionawr 2019.].

Palmiero, M. Giacomo, D a Passafiume, D. (2014). Divergent Thinking and Age-Related Changes. *Creativity Research Journal*. 26 (4), 456-460.

Robinson, K.. (2006). *Do schools kill creativity?*. Ar gael yn: https://www.ted.com/talks/ken_robinson_says_schools_kill_creativity#t-182461. [Darllenwyd: 17eg o Ionawr 2019.].

Rogers, C. (1970). *Toward a theory of creativity*. Harmondsworth: Penguin Books. t. 137-151.


Thorne, K. (2007). *Essential Creativity in the Classroom*. Abingdon: Routledge. t.3-17.

Turner, S. (2013). *Teachers' and pupils' perceptions of creativity across different key stages*. Loughborough: Loughborough University. t 23-40.

Tutor House. (2015). *The Importance of Promoting Creativity within Schools in the UK*. Ar gael yn: <https://tutorhouse.co.uk/importance-of-creativity-in-schools/>. [Darllenwyd: 22ain o Ionawr 2019.].

Wasg Prifysgol Caergrawnt. (2008). *Meaning of "creativity" in the English Dictionary*. Ar gael yn: <https://dictionary.cambridge.org/dictionary/english/creativity>. [Darllenwyd: 16eg o Ionawr 2019.].

Young, L. (2014). *The relevance of Enterprise in Education*. Llundain: Crown Copyright. t. 16.

Atodiad 1

Ffigwr 1: Areas and competences of the EntreComp conceptual model. (Fframwaith Entrecomp 2016).